# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 7 Mawrth 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(51)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf.

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd y 4 cwestiwn.

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Remploy

Dechreuodd yr eitem am 14.27

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.16(i), gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad llafar y Llywodraeth heb hysbysiad.

### 4. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.02

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 4, 7, 9 a 10.  Ni ofynnwyd cwestiynau 5 a 6.  Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl.

### 5. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.18

**NNDM4863**

**Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)**

**Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn hybu cyllid a gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar alluogi ystod eang o ddulliau teithio cynaliadwy a charbon isel mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol.

**Gyda chefnogaeth:**
Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.05

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4930 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i ddyrannu cyllid i roi'r cyfle i awdurdodau lleol Lloegr rewi'r Dreth Gyngor am yr ail flwyddyn yn olynol, ac yn nodi y bydd oddeutu 90 y cant o Gynghorau Lloegr yn defnyddio'r arian hwn i sicrhau na fydd cartrefi'n wynebu cynnydd yn y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf.

2. Yn nodi cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban y bydd pob awdurdod lleol yn yr Alban yn rhewi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2012/2013, ac yn nodi ei bod wedi dechrau rhewi'r Dreth Gyngor yn 2008/2009.

3. Yn gresynu'n fawr wrth fethiant Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r £38.9 miliwn o arian canlyniadol i gynghorau Cymru, gan wrthod y cyfle i'r 22 awdurdod lleol rewi'r dreth gyngor.

4. Yn gresynu ymhellach yr amcangyfrifir y bydd y dreth gyngor yng Nghymru yn cynyddu bron i 2.2 y cant ar gyfartaledd dros y flwyddyn nesaf.

5. Yn mynegi siom nad yw'r rhan fwyaf o gartrefi Cymru wedi cael cymorth gyda chostau byw beunyddiol o ganlyniad i fethiant Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r £38.9 miliwn o arian canlyniadol i awdurdodau lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 40 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 1, dileu “croesawu” a rhoi “nodi” yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 26 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 1, ar ôl ‘y flwyddyn nesaf’ rhoi ‘ac yn croesawu’r £38.9 miliwn o gyllid ychwanegol i Gymru o ganlyniad.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 9 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn nodi bod y dreth gyngor yng Nghymru eisoes 19% yn is nag yn Lloegr ac y bydd yn parhau i fod yn sylweddol is eleni.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 21 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwyntiau 3, 4 a 5 a rhoi’r canlynol yn eu lle:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu 1.3% yn rhagor o gyllid ar gyfer cynghorau yng Nghymru dros gyfnod yr adolygiad o wariant nag y mae Llywodraeth y DU yn ei roi i gynghorau yn Lloegr, ac y gallai cynghorau ddefnyddio’r arian hwn mewn perthynas â rhewi’r dreth gyngor, os dymunant wneud hynny.

Yn nodi y rhagwelir, ar ôl i bob awdurdod bennu ei gyllidebau ar gyfer 2012-13, y bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru yn is nag erioed.

Yn mynegi ei fod yn gresynu wrth gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor sy’n effeithio’n negyddol ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **27** | **0** | **26** | **53** |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gan fod gwelliant 4 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 5 a 6 eu dad-ddethol.**

**Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd cynghorau'n elwa o refeniw ychwanegol drwy fwy o weithgarwch economaidd yn eu hardaloedd, ac yn croesawu'r pecyn ysgogi economaidd gwerth £38.9 miliwn, a fydd yn ceisio darparu gweithgarwch economaidd ychwanegol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **32** | **0** | **21** | **53** |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4930 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth y DU i ddyrannu cyllid i roi'r cyfle i awdurdodau lleol Lloegr rewi'r Dreth Gyngor am yr ail flwyddyn yn olynol, ac yn nodi y bydd oddeutu 90 y cant o Gynghorau Lloegr yn defnyddio'r arian hwn i sicrhau na fydd cartrefi'n wynebu cynnydd yn y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf ac yn croesawu'r £38.9 miliwn o gyllid ychwanegol i Gymru o ganlyniad.

2. Yn nodi cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban y bydd pob awdurdod lleol yn yr Alban yn rhewi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2012/2013, ac yn nodi ei bod wedi dechrau rhewi'r Dreth Gyngor yn 2008/2009.

3. Yn nodi bod y dreth gyngor yng Nghymru eisoes 19% yn is nag yn Lloegr ac y bydd yn parhau i fod yn sylweddol is eleni.

4. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu 1.3% yn rhagor o gyllid ar gyfer cynghorau yng Nghymru dros gyfnod yr adolygiad o wariant nag y mae Llywodraeth y DU yn ei roi i gynghorau yn Lloegr, ac y gallai cynghorau ddefnyddio'r arian hwn mewn perthynas â rhewi'r dreth gyngor, os dymunant wneud hynny.

5. Yn nodi y rhagwelir, ar ôl i bob awdurdod bennu ei gyllidebau ar gyfer 2012-13, y bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru yn is nag erioed.

6. Yn mynegi ei fod yn gresynu wrth gynlluniau Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal y dreth gyngor sy'n effeithio'n negyddol ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

7. Yn credu y bydd cynghorau'n elwa o refeniw ychwanegol drwy fwy o weithgarwch economaidd yn eu hardaloedd, ac yn croesawu'r pecyn ysgogi economaidd gwerth £38.9 miliwn, a fydd yn ceisio darparu gweithgarwch economaidd ychwanegol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 26 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Pwynt o Drefn**

Cododd Ann Jones bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog 13.9 ynghylch y defnydd o iaith briodol yn y Siambr. Dyfarnodd y Dirprwy Lywydd fod y defnydd o "crony" yn cael ei ystyried mewn trefn fel arfer oni bai fod y cyd-destun yn gwneud i'r ystyr ymddangos yn waeth. Cytunodd i adolygu'r Cofnod gan nodi y bydd ef neu'r Llywydd yn dyfarnu ar y mater, os bydd angen.

**7. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17:05.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4931 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyflwyno ysgogiad ariannol cynhwysfawr ar gyfer yr economi, sy'n cynnwys buddsoddiad cyfalaf a ddaw o ffrydiau ariannu'r tu allan i'r grant bloc; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno pecyn o brosiectau cyfalaf a mesurau pellach i gefnogi busnesau ac i ddiogelu swyddi.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 44 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gyflwyno pecyn ariannol cynhwysfawr er mwyn helpu i ysgogi'r economi, gan gynnwys darparu buddsoddiad cyfalaf, o ffynonellau traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol; a

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 20 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 2, ar ôl ‘pellach’, rhoi ‘, fel gwell seilwaith a lefelau sgiliau uwch,’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:

'yn cynnwys diddymu ardrethi busnes ar gyfer cwmnïau hyd at werth ardrethol o £12,000’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 41 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio’n agos â Llywodraeth y DU i wella economi Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y gellid darparu ysgogiad economaidd cynhwysfawr petai gan y Cynulliad bwerau benthyca a rhagor o gyfrifoldeb ariannol, ac yn croesawu sefydlu Comisiwn Silk sy’n ymchwilio i’r posibilrwydd hwn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 12 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4931 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gyflwyno pecyn ariannol cynhwysfawr er mwyn helpu i ysgogi'r economi, gan gynnwys darparu buddsoddiad cyfalaf, o ffynonellau traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno pecyn o brosiectau cyfalaf a mesurau pellach, fel gwell seilwaith a lefelau sgiliau uwch, i gefnogi busnesau ac i ddiogelu swyddi.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos â Llywodraeth y DU i wella economi Cymru.

4. Yn credu y gellid darparu ysgogiad economaidd cynhwysfawr petai gan y Cynulliad bwerau benthyca a rhagor o gyfrifoldeb ariannol, ac yn croesawu sefydlu Comisiwn Silk sy'n ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 21 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**8. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.09

**NDM4929 Aled Roberts (Gogledd Cymru):**

"Clywch, Clywch" – Gwella Acwsteg yn yr Ystafell Ddosbarth

Mae'r ddadl fer hon yn ceisio tynnu sylw at yr anawsterau y mae plant ysgol sydd â nam ar eu clyw yn eu hwynebu wrth geisio gwrando ar eu hathro mewn ystafell ddosbarth sydd ag acwsteg wael, a chefnogi galwadau am roi mwy o ystyriaeth i acwsteg wrth ddylunio ysgolion ac ystafelloedd dosbarth newydd.

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.04

Daeth y cyfarfod i ben am 18:27

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, dydd Mawrth, 13 Mawrth 2012**